



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE



Tystysgrif Polisi a Chynllunio Iaith

Hanfodion Cynllunio Iaith

Sesiwn 4: Datblygiad Syniadaeth Cynllunio Iaith
20 Hydref 2025

Elin Haf Gruffydd Jones a Catrin Llwyd



Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies



Amserlen Sesiwn 4

9:30 Pwyllgor Staff Myfyrwyr (Cynrychiolydd)

Asesiad 1: Cyflwyniad Llafar

Ymateb i'r deunydd darllen

10:30 Egwyl

10.30 Datblygiad Syniadaeth Cynllunio Iaith - Teipolegau

11:20 Egwyl

11:30 Modelau Cylchdro/Olwyn

12:20 Dysgu Cyfeiriol a Ffarwelio



Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies



Aseu



DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu:

- ☐ trin yn feirniadol darddiad, prif nodweddion a thrywyddau damcaniaethol y maes cynllunio iaith, gan gyfeirio at awduron allweddol;
- ☐ trafod yn ddadansoddol iaith fel agwedd ar ymddygiad cymdeithasol, a'r hyn a olyga hynny i unigolion ac i berthynas grwpiau iaith â'i gilydd;
- ☐ cyfeirio at ymchwil a safbwyntiau arwyddocaol mewn nifer o feysydd craidd (e.e. trosglwyddo iaith, iaith a hunaniaeth, iaith a diwylliant, iaith ac economi, statws cyfreithiol) a'u gwerthuso'n feirniadol;
- ☐ cyfeirio at brif ffynonellau data demograffeg iaith, gan ddethol data perthnasol i feysydd diddordeb penodol;
- ☐ adnabod a thrafod datblygiadau a nodweddion polisi cyhoeddus ar gyfer ieithoedd llai a rhanbarthol, gan gyfeirio at Gymru, gwledydd yn Ewrop a* Gogledd America, a chymharu datblygiadau a thueddiadau mewn gwledydd gwahanol.
- ☐ * - *nid oes angen cyfeirio at fwy nac un wlad, ond dylid cyfeirio at un yn naill ai Ewrop neu Ogledd America*

Cyflwyniad Seminar Unigol (30 MUNUD ar gyfer y sesiwn gyfan: 15-18 cyflwyniad a 8 munud o gwestiynau)

Cyflwynwch yn feirniadol brif nodweddion, cysyniadau a thrywyddau damcaniaethol y maes cynllunio iaith. Cyfeiriwch yn benodol at waith o leiaf un o'r awduron allweddol a gyflwynwyd yn ystod y modwl.

Dyddiad cyflwyno: **08/12/2025**

Dyddiad dychwelyd marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig: **19/01/2026**

Cyfraniad at Asesiad Cyffredinol y
Modwl: 40%

Tynged yr Iaith, Saunders Lewis, 1962

Trafodaeth



Darlith Radio 1962
Saunders Lewis:
“Tynged yr Iaith”

- Gwrando ar y ddarlith yn ogystal â'i darllen
- Arddull y traddodi – ansawdd y llais, pwylllog
- Ystyried y ddarlith radio mewn perthynas ag arferion neu sgiliau gwranddo cynulleidfaoedd radio yn y 1960au
- At bwy roedd y ddarlith wedi ei chyfeirio? At y deallusion? At ddarpar ymgyrchwyr?
- Darllenadwyedd y testun

Prif Negeseuon:

- Y Cymry eu hunain sy'n gyfrifol – galwad “i'r Gad”, creu Cymdeithas yr Iaith.
- Beth fyddai ei farn heddiw: cf hunanlywodraeth. Defnyddio ar lawr gwlad. Angen y siglad eto? Deall ein hanes – polisi wedi bod mewn lle ers canrifoedd i ddifa'r iaith.
- Colli iaith ar ddiwedd ysgol gynradd; cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn brin. Neges sobreiddiol.
- Llawer o gynnwys hanesyddol yn y testun. Angen deall y gyfeiriadaeth (e.e. Llyfrau Gleision)
- Anelu at yr awdurdodau lleol?
- A ydyn ni wedi symud ymlaen? Pa mor bell ydyn ni wedi symud ymlaen?



Cyflwyno'r cyd-destun i ddarllenwyr y tu allan i'r Gymraeg ee Gwlad y Basg <https://www.naziogintza.eus/en/nazio-bidelagunak/cymdeithas-yr-iaith-gymraeg-60-years-fighting-for-the-welsh-language/>. Ystyriwch y ddau gyfieithiad Saesneg a gyhoeddwyd


RHAN 1



Ymateb i'r gwaith darllen:

Hodges, R., & Prys, C. (2019). *The community as a language planning crossroads: macro and micro language planning in communities in Wales*

https://pure.bangor.ac.uk/ws/portalfiles/portal/20426816/2018_The_community_as_a_language_planning_crossroads.pdf



Baldauf (2006)

*'While top down macro level language planning is seen as the traditional domain of language planning, an understanding of micro level linguistic interaction is key in understanding how language is actually used by actors within their communities...
...Chua and Baldauf (2011) Picanço (2012) question the effectiveness of government-lead macro-level language planning on a micro level. It could be argued that many now believe that the communities themselves must be key agents (Mac Giolla Chríst, 2008) in developing language use patterns and ideologies that foster and develop language use on micro community level'.*

Hodges, R., & Prys, C. (2019). The community as a language planning crossroads: macro and micro language planning in communities in Wales.

'...data from focus group interviews suggest that the educational system has a role to play in developing and maintaining fluency and establishing norms of language use within the wider community. This is particular importance as the teenage years are seen as key in the development and future use of a minority language (Ó Riagáin 1997, Mac Giolla Chríost 2005, Ó Riagáin et al, 2007). The data also suggest that gains made within the school curriculum may be undone when moving between stages within the educational system, and that the loss of language practice may have an adverse effect on wider community language use'.

Hodges, R., & Prys, C. (2019). The community as a language planning crossroads: macro and micro language planning in communities in Wales.

Diffyg cydlynu rhwng y micro a'r meso – y gwahanol haenau? (1)

- Diffyg ymwybyddiaeth, diffyg gwybodaeth yn cael ei rhannu, e.e. Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Y Saith Deilliant yn cynnwys gweithgareddau tu allan i'r ysgol. Codi ymwybyddiaeth o'r Camau Gweithredu. Dim gorolwg o beth sy'n mynd ymlaen. Tameidiog.
- Dysgwyr a siaradwyr newydd: pa mor groesawgar yw siaradwyr Cymraeg at ddysgwyr a siaradwyr newydd? Profiadau positif yn hynod bwerus. Annog neu orfodi, creu amodau ffafriol, heb groesi ffiniau. Ble mae'r llinellau? Siarad Cymraeg mewn clwb pêl-droed, a phryd i greu y clwb yn glwb Cymraeg neu ddwyieithog. Pa bryd mae hyrwyddo yn troi'n orfodi ac yn tanseilio rhyddid ieithyddol (i ddefnyddio'r iaith fwyafrifol)?
- Ymwybyddiaeth yn isel o'r ymyraethau polisi, digwyddiadau yn cael eu trefnu. Oes angen deddfu yn y sector breifat er mwyn gallu symud y sector ymlaen? Disgyblion yn colli gallu a diddordeb yn yr iaith ar ôl ysgol gynradd. Colegau Addysg Bellach yn gorfod ceisio 'dad-wneud' gwaith 4-5 mlynedd.

Diffyg cydlynw rhwng y micro a'r meso – y gwahanol haenau ? (2)

- Adnabod siaradwyr Cymraeg, bathodyn, ac angen creu rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ar gyfer rhai sy'n dysgu.
- Unigolion allweddol yn gallu gwneud gwahaniaeth. Cyfleoedd anffurfiol yn bwysig. Hyblygrwydd. Lot o bwysau ar unigolion mewn cymuned.
- Cymunedau yn gwybod beth maen nhw eisiau. Y micro angen yr arian, y rhyddid, y lleoliadau ayb. Dealltwriaeth llawr gwlad.
- Swyddi cynllunio a chyflenwi darpariaeth Gymraeg – a ddylai fod yn llorweddol (ar draws yr adrannau) neu yn fertigol (o fewn un adran)
- Diffyg cyllid, amser, adnoddau ar gyfer hwyluso'r berthynas (ee Gwe Iaith, Ysgolion)
- Amser athrawon o dan bwysau sylweddol. Adnoddau yn cael eu cynhyrchu gan ee Coleg Cymraeg ond dal yn fwy o waith cyflwyno'n ddwyieithog

RHAN 2


Teipolegau

Cynllunio Iaith



Teipolegau Polisi a Chynllunio Iaith

Mesthrie et al (2009)



Cynllunio Corpws

Kloss (1967, 1969)

- Safoni orgraff iaith
- Safoni termau
- Creu iaith safonol at ddibenion swyddogol
- Sicrhau bod geiriaduron, llyfrau gramadeg ac adnoddau eraill ar gael i roi arweiniad i bobl ynghylch sut i ddefnyddio'r iaith.
- Cyfieithu peirianyddol (e.e. argaeledd Google Translate, Microsoft ac ati)
- Negeseuo testun rhagweladwy
- Testun i lais a llais i destun ayb
- Deallusrwydd Artiffisial

RHAGOR
iaith



Cynllunio Statws

Kloss (1967, 1969)

- Proses fwriadol o osod statws ar iaith neu ieithoedd penodol (Kaplan & Baldauf 1997)
- Penderfyniadau ynglŷn â pha iaith i'w phennu fel iaith swyddogol gwlad fel enghraifft o hyn, iaith y llysoedd neu iaith gweinyddiaeth gyhoeddus (Cooper 1989)
- Mesur y Gymraeg (2011) yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. Cyn hynny, Deddf yr Iaith Gymraeg 1967, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, yn rhoi'r ymdeimlad o ryw fath o 'statws' i bobl. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – statws y Gymraeg drwy Fesur y Gymraeg yn gwneud y Gymraeg yn hollgwmpasog drwy bob maes polisi
- Mae gan statws ystyr ymarferol gwahanol mewn gwahanol wladwriaethau – e.e. yr UE, Llydaw (Ffrainc) a Gwlad y Basg (Ffrainc, Sbaen – Navarre a'r Gymuned Awtonomaidd). Statws swyddogol Ewropeaidd ar gyfer Basgeg, Catalaneg a Galisie?

RHAGOR
iaith



Cynllunio Caffael

Cooper (1989)

- Ymdrechion i hwyluso a hyrwyddo dysgu iaith benodol neu ieithoedd penodol.
- Tair elfen i gaffael iaith:
 - yn y cartref
 - mewn addysg statudol/gorfodol
 - dysgu fel oedolyn (yn y gweithle, yn y cartref fel oedolyn, Duolingo, cymdeithasol ac ati)
- Caffael iaith lafar, caffael llythrennedd, sgiliau gweithredol a goddefol. Caffael aml-gywair
- Continwwm ieithyddol yn hytrach na dim sgiliau iaith o gwbl
- Ymgais gwledydd i gynnal neu adfer y defnydd o iaith benodol mewn systemau addysg amrywiol.
- *cf Taith iaith*

RHAGOR
iaith



Cynllunio Bri

- Cynllunio sy'n ymwneud â chreu amgylchiadau seicolegol ffafriol ar gyfer iaith (Mesthrie et al. 2009).
- Mae Haarmann (1990) yn cyfeirio at bwysigrwydd gosod bri ar ieithoedd penodol a dylanwad hynny ar unigolion a'u defnydd hwy o iaith neu ieithoedd penodol o fewn eu bywydau bob dydd.
- Comisiynydd y Gymraeg yn hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg fel enghraifft o gynllunio bri.

Sectorau penodol e.e. meysydd bri:

- y cyfryngau, ffilmiau, S4C, cerddoriaeth gyfoes?
- Chwaraeon elite e.e. Cymdeithas Bêl-droed Cymru
- Senedd? Swyddi? Eisteddfod?

Amgodio/Dadgodio testunau (Hall, 1980) - gwahanol fathau o ymateb o'r cadarnhaol i'r negyddol.


RHAGOR
iaith



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner





Teipolegau Polisi a Chynllunio Iaith



Trywyddau a Thueddiadau

MODELAU AR SAIL CYLCHDRO NEU OLWYN

Olwyn dân Miquel Strubell Model cymdeithasol



Cylchdro “Caffael a Throsglwyddo”


Caffael: Addysg, Teulu, Cymdeithas

Hunaniaeth: Cylchoedd, Cymdogaeth,
Diddordebau,

Defnydd: Peuoedd, perthnasau
Trosglwyddo i eraill yn y gymuned, rhwydweithiau,
teuluoedd

Arfer: Ymddygiad, Hyder, Normalrwydd

Jones a Llwyd (2025 i’w gyhoeddi)




Ó Giollagáin (i'w gyhoeddi'n fuan): Societal Minority-Language Dynamics:

→ **Deinamig llawn**

Ó Giollagáin (forthcoming):
Societal Minority-Language Dynamics

Dynamics of Minority Sociolinguistic Inheritance as an Emergent Feature



Dysgu Cyfeiriol

Darllenwch:

[Y Gymraeg yng Nghymru, Cyfrifiad 2021](#)

Yn y sesiwn nesaf:
Sesiwn 5: 03/11/2025

Data a Demograffeg

